# Adolygiad yr arolygiaethau ar y cyd o arferion a threfniadau rhyng-asiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro

Tachwedd 2011

**AGGCC Swyddfeydd Cenedlaethol**
Swyddfeydd y Llywodraeth
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Ffôn: 0300 062 8800**
**cssiw@cymru.gsi.gov.uk**
**www.aggcc.org.uk**

ISBN 978 0 7504 6849 7
© Hawlfraint y Goron 2011
WG 14004

**Cydadolygiad arolygiaethau o drefniadau ac ymarfer rhyngasiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro rhwng Arolygiaeth Cwnstablaeth Ei Mawrhydi (HMIC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMI Probation**).

## 1. Rhagarweiniad

1.1.Yn ystod cydymchwiliad AGGCC ac Estyn i'r modd yr ymdriniwyd ac y rheolwyd honiadau o gamdriniaeth broffesiynol ac i'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn y gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Benfro ym mis Mehefin 2011, daeth pryderon i'r amlwg ynglŷn ag effeithiolrwydd ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol. O ganlyniad, cynhaliodd AGGCC ac Estyn drafodaethau gydag Arolygiaeth Cwnstablaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ac fe wnaethant hwy drefnu i ymgymryd â chydadolygiad ar wahân o ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

1.2 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad AGGCC ac Estyn ar y cyd am eu hymchwiliad ar 11 Awst, dywedodd Gwenda Thomas A.C., y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn datganiad ysgrifenedig:

> *"Mae cwestiynau'n cael eu codi yn yr adroddiad am ansawdd gweithio ar y cyd i ddiogelu ac amddiffyn plant. Mae AGGCC ac Arolygiaeth Cwnstablaeth Ei Mawrhydi wedi dechrau gweithio ar hyn. Rydw i wedi egluro fy mod yn disgwyl i'r gwaith hwn gynnwys Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ffurfiol er mwyn i werthusiad cywir o gyfraniad yr holl asiantaethau gael ei gynnwys. Bydd angen iddo hefyd ofyn am farn Swyddfa Archwilio Cymru".*

1.3 Cafodd yr adolygiad hwn ei gynnal gan AGGCC, Estyn, AGIC, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMI Probation). Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn derbyn gwybodaeth a bydd yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad i hysbysu ei harolygiad arbennig o Gyngor Sir Benfro yn y dyfodol agos. Ceir y maes gorchwyl yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr arolygiaethau fel rhan o'r cydarolygiad o Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) a gynhaliwyd yn gynharach eleni[1].

## 2. Trefniadau rhyngasiantaethol i amddiffyn plant

### Gweithio mewn partneriaeth

2.1 Mae trefniadau ac ymarfer rhyngasiantaethol effeithiol yn hanfodol er mwyn amddiffyn a diogelu plant. Lle ceir gweithio da mewn partneriaeth, fel arfer, ceir protocolau clir, cytunedig, effeithiol, sydd wedi eu deall yn dda, yn sail iddo. Mae angen i'r asiantaethau sy'n bartneriaid a'r ymarferwyr unigol fod yn glir ynghylch eu rolau

[1] Cydarolygiad Byrddau Lleol Diogelu Plant 2011 – Trosolwg - Overview Hydref 2011, (AGGCC, Estyn, AGIC, HMIC a HMI Probation) ISBN 978 0 7504 6650 9

gwahanol a'u cyfrifoldebau. Mae'n angenrheidiol i'r gweithwyr proffesiynol a'r ymarferwyr fod yn hyderus ac yn wybodus yn eu gwaith. Mae angen i drefniadau priodol fod wedi eu gwneud i gefnogi eu hymarfer, eu penderfyniadau proffesiynol a'u datblygiad proffesiynol. Rhaid i hyn gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer her broffesiynol ynghyd â systemau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd polisïau ac ymarfer.

Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

2.2 Er bod gan wahanol asiantaethau bob un ei chyfrifoldeb i sicrhau bod trefniadau addas wedi eu sefydlu o fewn ei sefydliad ei hun, mae gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP) rôl allweddol mewn sicrhau bod polisïau ac arferion gwaith effeithiol wedi eu sefydlu i amddiffyn plant a bod y rhain yn cael eu cydgysylltu a'u gweithredu'n iawn.

Ymchwilio i honiadau

2.3 Er bod gan yr holl asiantaethau ac ymarferwyr gyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn plant, mae gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol gyfrifoldeb statudol i edrych i mewn i honiadau o gam-drin plant. Er mwyn iddynt fedru cyflawni eu cyfrifoldeb statudol, rhaid bod ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni eu gwaith a rhaid i'r holl asiantaethau ac ymarferwyr eraill ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol hwy eu hunain yn effeithiol.

**3. Gweithio mewn partneriaeth - trefniadau rhyngasiantaethol i amddiffyn plant yn Sir Benfro**

Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

3.1 Mae'r holl Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru wedi mabwysiadu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sy'n egluro'r trefniadau gwaith ar gyfer cymhwyso'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.

3.2 Yn gynnar yn 2011 roedd aelodau BLIDP Sir Benfro wedi mynegi eu dealltwriaeth o'r agenda amddiffyn plant mewn dogfen lywodraethol, ond dim ond megis dechrau datblygu dealltwriaeth gyffredin o ddiogelu yr oeddent.

Protocol ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant

3.3 Ceir protocol manwl ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant ar y cyd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ac ymholiadau un asiantaeth. Mae'r protocol hwn yn darlunio'n glir yr enghreifftiau lle y bydd ymchwiliad un asiantaeth neu ymchwiliad ar y cyd rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn digwydd, gan ymdrin â phob math o honiad o niwed.

3.4 Mae gan y staff yn y gwasanaethau cymdeithasol wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r protocol yma. Er bod y staff yn datgan bod y protocol yn adlewyrchu ymarfer yn y rhan fwyaf o achosion amddiffyn plant, nid yw wedi ei gymhwyso'n gywir yn llawer o'r achosion lle yr ymdriniwyd â honiadau o gamdriniaeth broffesiynol gydag addysg.

3.5 Ceir protocol ar gyfer datrys anghytundebau proffesiynol a gytunwyd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Sir Benfro yn 2008. Mae'r protocol yn disgrifio dull dwy haen ar gyfer ymdrin ag anghydfod. Ymddengys bod nifer o anghysondebau yn y polisi; er enghraifft, nid yw'n egluro ble, o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, y dylid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r anghytundebau hyn, ac nid yw'r cyfnodau o amser a bennwyd yn glir. Fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn wedi ei ddefnyddio'n effeithiol ac ni allai'r un o'r staff y siaradwyd â hwy ddangos ei fod yn gwybod amdano.

Perthynas waith ymarferol

3.6 Ymddengys bod gweithio mewn partneriaeth ar lefel y dyn cyffredin, ar draws yr asiantaethau statudol, yn llwyddo'n dda. Mae staff gwaith cymdeithasol rheng flaen a'r heddlu yn adrodd am berthynas waith dda a'u bod yn mwynhau lefel uchel o gydweithredu wrth weithio gyda'i gilydd yn y gwaith o amddiffyn plant. Bydd y broses amddiffyn plant ryngasiantaethol yn cychwyn gyda chyfarfod neu drafodaeth strategaeth a dylid cofnodi'r canlyniad. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a chanlyniadau penderfyniadau a wnaed bob amser yn cael eu cofnodi'n fanwl gan yr asiantaethau gwahanol. Gyda golwg ar yr heddlu, er enghraifft, roedd hyn yn neilltuol o amlwg mewn atgyfeiriadau 'lefel is' lle y cytunwyd ar benderfyniad o 'ddim camau pellach'. Adroddid am berthynas waith dda ar lefel y rheng flaen rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac ymarferwyr y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, ceid anawsterau ambell waith wrth geisio cael gwybodaeth amserol gan feddygon teulu.

Honiadau o gamdriniaeth broffesiynol

3.7 Yn y gwasanaethau cymdeithasol, mewn achosion o gamdriniaeth broffesiynol honedig, nid oes ffeil plentyn wedi ei chreu bob tro, gan ei bod yn bosibl nad oedd y plentyn mewn perygl o fewn ei deulu ei hun. O ganlyniad, yn aml nid yw cofnodion cyfarfodydd strategaeth proffesiynol yn cynnwys canlyniadau'r camau a gymerwyd mewn ymateb i honiadau yn erbyn gweithiwr proffesiynol. At hynny, gan nad oes yr un asiantaeth ar hyn o bryd yn cymryd yr awenau o ran cydgysylltu'r adborth o'r camau gweithredu nac yn cofnodi canlyniad terfynol y camau a gymerwyd ynglŷn â chamdriniaeth broffesiynol honedig, mae'n anodd canfod y methiannau i gyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i bartneriaid herio'r naill a'r llall.

3.8 Nid oes arweiniad lleol clir wedi ei sefydlu sut y mae cyfarfodydd strategaeth ac unrhyw gamau gweithredu dilynol i gael eu cyfleu i'r asiantaethau eraill sy'n bartneriaid sydd angen gwybod amdanynt. Er enghraifft, yn y ddarpariaeth addysg 14-19, pan fydd digwyddiad honedig wedi cael ei atgyfeirio ac yn dod yn destun gweithdrefnau diogelu, nid oes proses neu bolisi clir wedi ei benderfynu i sicrhau bod yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn cael gwybod bod risg bosibl i blant o fewn y prosiect hwnnw. Canlyniad hyn yw y gallai plant a phobl ifanc barhau i gael eu gosod mewn prosiectau sy'n destun ymchwiliad ac felly gael eu gosod mewn perygl. Nid yw partneriaid bob amser yn cael gwybod yn ddigon buan pan fydd ymchwiliad wedi ei gwblhau a gall hyn ohirio unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu plant a phobl ifanc.

3.9 Pan dderbynnir atgyfeiriadau mewn perthynas â honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnull ac yn cadeirio cyfarfod

strategaeth, lle bydd yr holl asiantaethau perthnasol yn cael eu gwahodd i adolygu'r wybodaeth a gwneud penderfyniadau. Canfu'r arolygwyr fod cyfarfodydd strategaeth ar y cyfan yn cael eu cynnal ar amser. Fodd bynnag, nid yw'r asiantaethau cywir bob amser yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod. Golyga hyn nad yw gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu a'i chymryd i ystyriaeth bob tro wrth benderfynu pa gam gweithredu sydd ei angen.

Cofnodi cyfarfodydd

3.10 Nid yw cofnodion cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol o ansawdd digon da ac nid ydynt yn cael eu cylchredeg mewn dull amserol nac effeithlon. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd cofnodwr dynodedig ar gyfer cyfarfodydd strategaeth ac roedd rhai cofnodion yn wael; ni cheid tystiolaeth fod anghytundebau proffesiynol wedi eu cofnodi na her broffesiynol i benderfyniadau. Er enghraifft, tynnwyd sylw'r arolygwyr at achosion pan adroddid bod penderfyniadau i beidio ag atal staff o'u gwaith wedi cael eu herio, ond ni chafodd yr heriau hyn eu cofnodi. Ymddengys bod asesu risg ar draws yr holl asiantaethau yn wan ac nid oes llwybr olrhain digonol o drafodaethau ynghylch risg yn digwydd mewn cyfarfodydd partneriaeth.

3.11 Lle mae gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau gwahanol yn adnabod ei gilydd yn dda, ceir tuedd i weithio'n anffurfiol, sy'n golygu, ar adegau, y gwneir cytundebau y tu allan i gyfarfodydd strategaeth heb roi gwybod i asiantaethau eraill na chofnodi'r hyn a gytunwyd na dilyn y camau gweithredu'n ddigonol.

Her broffesiynol a dal asiantaethau i gyfrif

3.12 Ni fu asiantaethau sy'n bartneriaid yn ddigon cadarn yn dal ei gilydd i gyfrif o ran y camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Ychydig o dystiolaeth sydd yna fod partneriaid yn dilyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt nac yn archwilio canlyniadau'r camau hynny, yn lledaenu'r hyn a ddysgwyd nac yn gwerthuso llwyddiant y strategaeth.

3.13 Pan fu angen i staff y gwasanaethau cymdeithasol herio asiantaethau eraill, maent wedi derbyn cefnogaeth dda gan eu rheolwyr timau. Fodd bynnag, lle bu angen i staff y gwasanaethau cymdeithasol herio rheolwyr uwch mewn adrannau eraill yn yr awdurdod lleol neu mewn asiantaethau sy'n bartneriaid, nid ydynt wedi cael eu cefnogi'n dda gan eu huwch-reolwyr hwy eu hunain. O fewn y gwasanaethau cymdeithasol, mae'r berthynas gydag asiantaethau eraill yn cael ei herio'n briodol ar lefel rheolwyr tîm. Fodd bynnag, gall y diffyg cefnogaeth gan uwch-reolwyr o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, a deimlir gan staff y rheng flaen, olygu mai ychydig o effaith a gaiff yr her hon.

3.14 Nid yw awdurdod cadeirydd y cyfarfodydd strategaeth yn cael ei gefnogi'n dda gan y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Atgyfeiriadau am honiadau o gamdriniaeth broffesiynol

3.15 Adran y gwasanaethau cymdeithasol sy'n derbyn y rhan fwyaf o atgyfeiriadau am honiadau o gamdriniaeth broffesiynol ac mae ganddi systemau boddhaol ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau, h.y. cadw cofnod, cynnal a chofnodi cyfarfodydd strategaeth.

Fodd bynnag, mae ansawdd y wybodaeth a dderbynnir ar adeg atgyfeirio gan asiantaethau eraill weithiau'n wael ac mae modd i hyn gynyddu'r risg o wneud penderfyniadau gwael.

3.16 Bydd un o'r prif rwystrau, sy'n atal rhoi gwybodaeth o ansawdd da, yn digwydd pan fydd gan asiantaethau sy'n bartneriaid weithdrefnau sy'n gofyn i'r gweithiwr proffesiynol, sydd â gwybodaeth fod plentyn wedi ei niweidio, rannu'r wybodaeth gyda chydweithwyr yn ei asiantaeth ei hun cyn gwneud atgyfeiriad. Mewn rhai achosion, y swyddogion amddiffyn plant dynodedig yn yr asiantaethau hynny fydd wedyn yn gwneud yr atgyfeirio. Mae hyn yn arwain at oedi cyn i wybodaeth gyrraedd y gwasanaethau cymdeithasol, a hefyd, ar adegau, at gamlunio ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo.

Trothwy niwed arwyddocaol

3.17 Yn rhy aml, yr arferiad mewn cyfarfodydd strategaeth proffesiynol fu barnu achosion yn erbyn 'trothwy niwed arwyddocaol', nad yw'n briodol ar gyfer honiadau o gamdriniaeth neu destunau pryder ynghylch pobl sy'n gweithio gyda phlant. Dylid barnu pob achos bob amser yn ôl ei deilyngdod, yn dilyn ymchwiliad cadarn i'r hyn yr honnir iddo ddigwydd.

Ymatebion i honiadau o gamdriniaeth broffesiynol

3.18 Yn gyffredinol, nid oedd yr ymateb amlasiantaethol i honiadau o gamdriniaeth broffesiynol yn canolbwyntio digon ar y plentyn. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad y cydymchwiliad cynharach gan AGGCC ac Estyn gyda golwg ar ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff mewn addysg. O safbwynt yr heddlu, roedd yr ymateb yn tueddu gormod i gyfeiriad yr ymchwiliad troseddol ac mae angen gwneud newidiadau er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion y plentyn a'r gwerth y gallai'r heddlu ei ychwanegu at yr agwedd hon.

Polisi chwythu'r chwiban

3.19 Mewn cyfweliadau, bu gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn trafod pwysigrwydd polisi chwythu chwiban yr awdurdod lleol o ran eu galluogi i gyflawni eu gwaith. Roeddent, fodd bynnag, yn mynegi diffyg ffydd hynod yn y polisi hwn i'w hamddiffyn hwy na'u cynorthwyo hwythau i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro. Mae absenoldeb hyder ac ymddiriedaeth yn y broses yn tanseilio gallu'r broses i amddiffyn plant yn effeithiol.

Cytundebau lefel gwasanaeth

3.20 Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPI) Sir Benfro a'r bartneriaeth 14-19 yn defnyddio cytundebau lefel gwasanaeth (CLG) a chytundebau partneriaeth sy'n diffinio'n glir gyfrifoldebau unigol y partneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys rheolaeth ariannol, adrodd am sicrhau ansawdd yn ogystal â'r gofyn i ddarparwyr weithio'n unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth hefyd yn eglur yn eu disgwyliad y bydd darparwyr yn cydymffurfio â'r holl 'reoliadau statudol a'r deddfiadau' sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch plant.

3.21 Mae'r bartneriaeth 14-19 yn cynnwys un prosiect a adwaenir fel 'Ymgysylltu' sydd â chytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwyr allanol, sy'n neilltuol o glir yn ei ofynion i sicrhau diogelwch a lles plant. Fodd bynnag, ar draws yr amrywiaeth o gytundebau lefel gwasanaeth eraill a ddefnyddir mewn trefniadau partneriaeth mae gormod o amrywiad ym mha mor glir y dywedir bod rhaid i'r holl staff sydd mewn cysylltiad â phlant feddu ar wiriadau cyfredol y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae'r bartneriaeth 14-19 yn awr wedi dechrau defnyddio'r model CLG, a ddefnyddir gan Ymgysylltu, yn ehangach.

3.22 Wrth gomisiynu gwasanaethau, nid yw ansawdd polisïau a gweithdrefnau'r darparwr unigol bob amser yn cael ei archwilio'n ddigon trylwyr. Mae gormod o ddibynnu ar 'ymddiriedaeth', gan dderbyn bod llofnod y darparwr ar y cytundeb yn ddigon i sicrhau bod mesurau priodol wedi eu sefydlu. Yn rhy aml, nid oes gan swyddogion yr awdurdod lleol, sy'n rheoli'r cytundebau lefel gwasanaeth, yr hyder i herio'r dybiaeth hon ac i ofyn i ddarparwyr ddilysu eu bod wedi sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys y gwirfoddolwyr) yn meddu ar y gwiriadau CRB addas a thystlythyrau sydd wedi eu dilysu.

Polisïau a gweithdrefnau

3.23 O ganlyniad i'r adolygiad hwn mae'r Ymddiriedolaeth Brawf a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn archwilio'u polisïau a'u gweithdrefnau i weld a ydynt yn addas i'r diben. Os nad ydynt, byddant yn gwneud diwygiadau priodol.

Gweithgaredd y gwasanaeth iechyd

3.24 Adolygodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yr achosion o gamdriniaeth honedig (gan gynnwys camdriniaeth bosibl) oedd yn ymwneud â staff y gwasanaeth iechyd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2007 hyd 31 Mawrth 2011. Darparodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda gofnodion 9 achos o'r fath yn ystod y cyfnod hwn (sydd hefyd yn cynnwys y cyrff oedd yn ei ragflaenu cyn i'r Bwrdd gael ei sefydlu ym mis Hydref 2009). Nid oedd yr un o'r achosion hyn yn ymwneud â chamdriniaeth yr honnid iddi gael ei chyflawni gan unigolion yn ystod eu gwaith cyflogedig. Yn yr holl achosion yr oedd yn eglur bod asiantaethau statudol allweddol wedi bod yn ymwybodol o'r honiadau ac wedi cymryd rhan mewn gweithredu arnynt. Ymddengys bod cyfathrebu rhwng yr heddluoedd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd (a'i ragflaenwyr) wedi digwydd fel oedd yn briodol. Ym mhob achos roedd naill ai'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol wedi dwyn eu pryderon i sylw'r corff iechyd. Ymddengys bod y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol wedi eu sefydlu er y bydd yr AGIC yn gofyn am eglurder gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn â rheolaeth ychydig o'r achosion hyn cyn dod i'w gasgliadau terfynol.

Gweithredu amlasiantaethol

3.25 Mae'r 25 achos o gamdriniaeth broffesiynol yn y gwasanaethau addysg rhwng 2007 a 2011, oedd yn destun cydymchwiliad AGGCC/Estyn, bellach wedi bod yn destun adolygiad gan yr awdurdod lleol a Heddlu Dyfed Powys. Cafodd canlyniadau'r adolygiadau hyn eu hadrodd wrth yr arolygiaethau a chaiff y rhain eu dilyn gan yr arolygiaethau gyda'r gwahanol sefydliadau fel bo'n briodol.

## 4. Gwella trefniadau ac ymarfer proffesiynol i ddiogelu ac amddiffyn plant

4.1 Datgelodd y cydarolygiad ddiffyg arweinyddiaeth strategol, oedd yn cyfrannu at ddiwylliant cyffredinol lle roedd hi'n anodd i unrhyw un o'r asiantaethau unigol cysylltiedig gyflawni ei chyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol mewn achosion o gamdriniaeth broffesiynol honedig.

4.2 Er hynny, canfu'r arolygiad hefyd rai pethau cadarnhaol; yn fwyaf arbennig, parodrwydd i gydweithio rhwng rhai ymarferwyr unigol profiadol ac ymroddedig a gweithwyr proffesiynol. Bydd hyn yn sylfaen dda ar gyfer cryfhau a gwella trefniadau ac ymarfer diogelu ac amddiffyn plant rhwng asiantaethau. Er mwyn cyrraedd y nod hon, bydd angen arweinyddiaeth gref ar y cyd ynghyd â chefnogaeth ar draws yr holl asiantaethau gan gynnwys yr adnoddau priodol.

4.3 Er bod asiantaethau unigol wrthi'n sefydlu cynlluniau i wella diogelu ac amddiffyn plant, mae gan y BLIDP swyddogaeth allweddol o ran darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth, cynlluniau a goruchwyliaeth i gyflawni hyn.

## 5. Mae angen rhoi sylw arbennig i'r materion canlynol:

Ymdriniaeth amlasiantaethol â honiadau o gamdriniaeth broffesiynol

5.1 Wrth ymateb i bob honiad o gamdriniaeth broffesiynol, dylai pob asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sicrhau bod trefniadau rheoli cadarn wedi eu gwneud ar gyfer ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys darparu a sicrhau ansawdd gwasanaethau, yn ogystal â goruchwyliaeth gan reolwyr o asesiadau risg. Dylai hyn bob amser gynnwys ymchwiliad trwyadl i'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlentyn sy'n gwneud honiad, plant eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r holl staff eraill sy'n gysylltiedig â'r honiad.

5.2 O ganlyniad i'r asesiad risg dylid cymryd y camau priodol i sicrhau bod y plentyn ac unrhyw blant eraill yn cael eu hamddiffyn ar unwaith rhag niwed.

5.3 Dylid gwahodd yr holl gyrff perthnasol i gyfarfodydd strategaeth yn ymwneud â chamdriniaeth broffesiynol.

5.4 Dylai'r cofnodion a gedwir ar gyfer yr holl achosion fod yn glir, yn gywir ac yn fanwl. Rhaid i'r cofnodion gynnwys esboniad am benderfyniadau a rhaid cofnodi unrhyw anghytundebau rhwng asiantaethau ynglŷn â'r penderfyniadau.

Recriwtio a hyfforddiant

5.5 Dylai'r holl staff ar bob lefel yn yr holl sefydliadau ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant ar y cyd, ar lefel sy'n briodol i'w swyddogaeth. Dylai hyn gynnwys canfod cam-drin plant gan weithwyr proffesiynol, eglurder ynghylch sut i weithredu wedyn a chwythu'r chwiban. Dylid gwerthuso'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn effeithiol.

5.6 Dylai pob sefydliad sicrhau bod ei arferion recriwtio a chyflogi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad presennol a'u bod o'r ansawdd gorau i ddiogelu ac amddiffyn plant.

5.7 Lle y mae'r gwaith gyda phlant yn cael ei is-gontractio neu lle mae'n destun cytundeb partneriaeth neu gyffelyb, dylai pob sefydliad sicrhau arferion amddiffyn plant priodol, gan gynnwys recriwtio, cyflogi a gwaith ymarferol. Dylid cynnwys y disgwyliadau hyn yn y cytundebau contractio a dylai'r asiantaeth sy'n comisiynu eu monitro.

Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP)

5.8 Dylai'r BLlDP roi terfyn ar yr arferiad o farnu honiadau o gamdriniaeth broffesiynol yn erbyn 'trothwy niwed arwyddocaol', cyn cynnal ymchwiliad trylwyr i'r hyn yr honnir iddo ddigwydd.

5.9 Dylai'r BLlDP sicrhau bod cadeirydd yr holl gyfarfodydd strategaeth amddiffyn plant ar lefel briodol o uchel a bod y gefnogaeth sydd ei hangen i gyflawni'r swyddogaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer y cadeirydd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau heb ymyrraeth.

5.10 Dylai'r BLlDP ac asiantaethau unigol sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed, drwy amrywiaeth o gyfleoedd a thros gyfnod, bod y rhain yn cael eu coladu, eu dadansoddi ac yr adroddir ac y gweithredir arnynt yn agored.

5.11 Dylai'r BLlDP sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar gyfer chwythu'r chwiban wedi eu sefydlu yn yr holl asiantaethau a chymryd camau gweithredu lle y ceir tystiolaeth nad yw'r rhain yn gweithio'n iawn.

5.12 Dylai cadeirydd y BLlDP a'r holl uwch-reolwyr yn y sefydliadau a gynrychiolir sicrhau bod swyddogaethau craidd y BLlDP yn cael eu cyflawni, er mwyn gweithredu eu cyfrifoldeb cyffredinol i *'co-operate and safeguard and promote the welfare of children in that locality and for ensuring the effectiveness of what they do'*.

5.13 Dylid adrodd am bob achos o gamdriniaeth broffesiynol honedig wrth y BLlDP. Dylai'r BLlDP adolygu canlyniadau pob achos yn drwyadl er mwyn sicrhau bod pob agwedd wedi ei nodi'n llawn a bod y camau priodol wedi eu cymryd. Dylai hyn gynnwys nodi'r risgiau i blant eraill oddi wrth staff y gwnaed honiadau yn eu herbyn ac unrhyw staff eraill lle y gall fod pryderon ynghylch eu gallu i amddiffyn plant.

Gwelliannau a gynlluniwyd

5.14 Mae strwythur ac arweinyddiaeth amddiffyn plant yn Heddlu Dyfed Powys i newid ym mis Hydref 2011 ac mae'r HMIC yn ystyried hyn yn beth cadarnhaol. Bydd gan yr arweinyddiaeth newydd well dealltwriaeth o'r materion sy'n cael eu rheoli, ac mae'r cyfleuster cofnodi canolog wedi ei fwriadu i greu cofnodion mwy cywir, cysondeb o ran trothwyon/asesiadau risg cychwynnol a gwelliannau yn ansawdd cofnodion data.

5.15 Mae gan yr awdurdod lleol gynllun gwella ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yng nghydymchwiliad AGGCC/Estyn.

Dilyniant

5.16 Bydd yr arolygiaethau perthnasol yn dilyn y materion a nodwyd yn y cydadolygiad hwn gyda'r asiantaethau unigol fel bo angen. Yng ngwanwyn 2012 bydd yr arolygiaethau ar y cyd yn cynnal adolygiad dilynol o'r trefniadau rhyngasiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant er mwyn canfod pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gwelliannau a gynlluniwyd ac o ran gwella ymarfer.

## Atodiad 1

### Cylch gorchwyl

**Cydadolygiad arolygiaethau o drefniadau ac ymarfer rhyngasiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro rhwng Arolygiaeth Cwnstablaeth Ei Mawrhydi (HMIC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMI Probation**).

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r dull y bydd yr arolygiaethau'n ei fabwysiadu wrth gynnal y gwaith hwn.

Bydd **HMIC** yn cyfyngu ei adolygiad i'r rhannau hynny o'r trefniadau diogelu y mae gweithgaredd Heddlu Dyfed Powys (HDP) yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Bydd methodoleg arfaethedig yr HMIC fel a ganlyn:

- Archwilio safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.
- Adolygu safonau'r heddlu/safonau lleol gyda golwg ar amddiffyn plant.
- Ystyried y materion a godwyd gan AGGCC ac Estyn yn erbyn safonau cenedlaethol/lleol.
- Cynnal gwaith maes i benderfynu a gafodd safonau eu cyrraedd.

Bydd **AGGCC** yn adeiladu ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef eisoes yn ei gydymchwiliad gydag Estyn yn Sir Benfro wrth archwilio sampl o 14 o'r 25 achos o gamdriniaeth honedig gan staff yn y gwasanaethau addysg, gan ganolbwyntio'n benodol ar effeithiolrwydd y trefniadau gwaith amlasiantaethol gyda phartneriaid statudol wrth ymdrin â honiadau o gamdriniaeth broffesiynol gan yr adran addysg. Yn benodol:

- Y polisïau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer hybu gweithio amlasiantaethol mewn gweithdrefnau amddiffyn plant a datrys anghytundebau
- Y broses atgyfeirio ar gyfer honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol
- Effeithiolrwydd penderfyniadau amlasiantaethol yn dilyn atgyfeirio
- Trylwyredd ymchwiliadau/cydymchwiliadau (gan gynnwys llais y plentyn)
- Cydweithio amlasiantaethol i sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc yn dilyn ymchwiliad.

Bydd y gwaith maes yn cynnwys un diwrnod o gyfweliadau gyda staff y rheng flaen a rheolwyr o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant.

Bydd **Estyn** yn archwilio unrhyw achosion a adroddwyd o 'gamdriniaeth broffesiynol' am y cyfnod o Ebrill 2007 i Fedi 2011, yn y gwasanaethau cefnogi ieuenctid ac mewn darpariaeth 14-19 oddi ar y safle, nas nodwyd eisoes yn yr ymchwiliad blaenorol. Er mwyn dilyn yr agweddau amlasiantaethol drwodd mewn rheoli diogelu yn Sir Benfro, ac yng ngoleuni'r diffygion a'r argymhellion oedd wedi eu cynnwys yn arolygiad Estyn o'r gwasanaethau cefnogi ieuenctid yn 2008, bydd yr ymchwiliad i waith amlasiantaethol yn Sir Benfro yn edrych ar ba mor dda y mae diogelu yn cael ei reoli wrth weithio mewn partneriaeth yn y gwasanaethau cefnogi ieuenctid ac yn y ddarpariaeth 14-19.

Bydd Estyn yn archwilio gyda'r PPPI, partneriaeth 14-19, yr awdurdod lleol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a'i phrif bartneriaid, pa mor dda y maent yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau digonol ar gael ar gyfer prosiectau seiliedig ar bartneriaeth sy'n effeithio ar ddiogelu plant. Bydd y rhain yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod gan bartneriaid bolisïau wedi eu sefydlu ar gyfer amddiffyn plant, recriwtio diogel, a gweithio unig gyda phlant; pa mor drwyadl y maent yn gweithredu arferion recriwtio diogel a gwiriadau CRB ac yn sicrhau tystlythyrau; pa mor dda y maent yn asesu risg gweithgareddau peryglus a gweithgareddau oddi ar y safle ac yn y blaen. Bydd Estyn yn dymuno cyfweld:

- aelodau o grŵp rheoli PAVS sydd â chyfrifoldebau am faterion diogelu a hyfforddiant diogelu;
- swyddogion gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am sefydlu, rheoli a sicrhau ansawdd gweithio ar y cyd gyda'r sector gwirfoddol;
- swyddogion yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am sefydlu darpariaeth addysg 14-19 y tu allan i'r ysgolion a'r coleg AB;
- aelodau o'r bartneriaeth 14-19 sydd â'r prif gyfrifoldebau am ddiogelu;
- rheolwyr yn y sector gwirfoddol lle y canfuwyd camdriniaeth broffesiynol; a
- rheolwyr mewn darpariaeth addysg 14-19 y tu allan i'r ysgolion lle y canfuwyd camdriniaeth broffesiynol.

Bydd **AGIC** yn gwneud y canlynol:

- archwilio swyddogaeth gweithwyr proffesiynol iechyd mewn sampl o'r 25 achos y tynnwyd sylw atynt gan AGGCC ac Estyn fel rhai oedd yn peri pryder.

- cynnal adolygiad o'r modd y rheolwyd ac y triniwyd achosion honedig o gam-drin plant gan staff gofal iechyd, yr adroddwyd amdanynt wrth Fwrdd Iechyd Hywel Dda neu'r cyrff a'i rhagflaenodd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2011.

- adolygu cofnodion presenoldeb yn unedau Damweiniau ac Achosion Brys ac Anafiadau Bychain (am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2011) i ganfod a oedd yna unrhyw dueddiadau a ddylai fod wedi tynnu sylw at faterion neu bryderon ac y dylai staff gofal iechyd fod wedi gweithredu yn eu cylch.

Bydd **HMI Probation** yn gwneud y canlynol:

Archwilio unrhyw achosion a adroddwyd o 'gamdriniaeth broffesiynol' (yn erbyn plant neu bobl ifanc dan 18 mlwydd oed) am y cyfnod rhwng Ebrill 2007 a Medi 2011 yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf yn Sir Benfro neu asiantaethau a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan.

**Cyffredinol**

Bydd yr arolygiaethau hefyd yn ystyried canlyniad cydadolygiad y 25 achos o gamdriniaeth broffesiynol honedig mewn ysgolion a gwasanaethau addysg rhwng 2007 a 2011 a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Benfro a Heddlu Dyfed Powys.

Bydd yr arolygiaethau'n cyhoeddi adroddiad ar y cyd fydd yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella yn y trefniadau gwaith rhwng asiantaethau, yn nodi meysydd o arfer da ac yn rhoi arweiniad i asiantaethau sut i wneud gwelliannau i arferion gwaith lle bo angen.

Os, yn ystod yr adolygiad hwn, y bydd testunau pryder cysylltiedig ag achosion unigol yn dod yn hysbys i'r arolygiaethau, caiff y rhain eu cyfeirio i sylw'r asiantaethau perthnasol er mwyn iddynt hwy weithredu arnynt.

Medi 2011